BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN
ANGLESEY AND GWYNEDD PUBLIC SERVICE BOARD

Dydd Mercher, 12 Medi 2018 10:00-12:00

COFNODION

ENW	SEFYDLIAD
Dyfrig Siencyn	Cyngor Gwynedd
Bethan Russell Williams	Mantell Gwynedd
Jerry Hunter	Prifysgol Bangor
Gary Dohety	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Emyr Williams	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Dr Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Siobhan Adams	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Catrin Parry	Gwasanaeth Prawf
Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Elizabeth Woodcock	Ymchwilydd Ôl Raddedig
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd
Ffrancon Williams	Cartrefi Cymunedol Cymru
Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Sian Purcell	Medrwn Môn

Yn mynychu	
Nonn Hughes	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Dewi Jones	Cyngor Gwynedd
Sian Owen	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Ffion Johnstone	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyng. Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Andy Jones	Gwasanaeth Prawf Cymru
Stephen Hughes	Swyddfa Comisiynydd Heddlu

Ann Griffith	Swyddfa Comisiynydd Heddlu
Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Nigel Harrison	Heddlu Gogledd Cymru
Janet Roberts	Cyngor Gwynedd
Ian Rees	Gr*p Llandrillo Menai
Richie Green	Heddlu Gogledd Cymru

1. Cylch Gorchwyl - eitem sefydlog

Dim newidiadau i'w cyflwyno.

Atgoffwyd y Bwrdd o'r pennawd ar gyfer yr is-grwpiau yn y cylch gorchwyl yn nodi- y dylai pob is-grŵp adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd, bydd pob is-grŵp yn paratoi cylch gorchwyl a bydd cadeirydd yr is-grwpiau yn ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

3. Cofnodion i'w cymeradwyo a materion yn codi

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r trafodaethau.

Pwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf wedi eu cynnwys isod:

1. Nododd NH fod templed cynllun gweithredu a siart Llywodraethu wedi eu datblygu, mae'r templed bellach wedi ei chylchredeg i arweinyddion yr is-grwpiau. Y Siart Llywodraethu wedi ei gynnwys ar yr agenda.
2. Cyllid i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus - Yn dilyn cyfarfod diwethaf y Bwrdd nid oedd DJ wedi derbyn unrhyw syniadau / sylwadau am ddefnydd posib o'r cyllid gan yr aelodau.Atgoffwyd aelodau o'r Bwrdd bod dal amser iddynt anfon eu sylwadau ymlaen at DW/NH ar ffurf ebost. Hysbysodd NH fod grŵp Rhwydweithio BGC y Gogledd am ystyried y posibilrwydd o gyfieithu'r Cynllun Llesiant i'r iaith arwyddo. Cynigiodd SP i anfon ymlaen rhestr o gysylltiadau perthnasol ymlaen at DJ mewn perthynas â'r iaith arwyddo.
3. NH i drefnu sesiwn hanner diwrnod ar y pwnc Byrddau Iach. Nodwyd fod y sesiwn eisoes wedi ei drefnu gyda chais cyfarfod wedi ei anfon at aelodau'r Bwrdd - 26.2.19 1.30yh-4.30yh, yn Nhŷ Menai, Parc Menai.
4. Cytunwyd i wahodd Elizabeth Woodcock i roi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Eitem wedi ei gynnwys ar yr agenda.

4. Cyflwyniad ar strwythur Llywodraethu Cyflawni

Cafodd y strwythur ei gylchredeg i aelodau'r Bwrdd cyn y cyfarfod. Nododd NH fod y strwythur yn un cychwynnol felly yn agored i unrhyw sylwadau ac awgrymiadau pellach.

Amlinellwyd yr Is-grwpiau o fewn y llun-ddarlun. Yn dilyn cyfarfod cychwynnol yr is-grwpiau, nodwyd fod y

grwpiau wedi cymryd ymagweddau gwahanol gyda rhai yn cadw ei grwpiau fel grwpiau bach i gynnal y tafodaethau cychwynnol, ac eraill wedi dewis cynnal gweithdai er mwyn cynnwys mewnbwn rhanddeiliaid ehangach.

Sylwadau -

Cyfeiriodd DW at y cydberthynas rhwng rhai o'r blaenoriaethau e.e. Tlodi a Lles. Bydd y rhain yn cael eu hamlygu yn y cynlluniau gweithredu sy'n cael eu datblygu gan yr is-grwpiau erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd. Bydd modd i'r Bwrdd ail ymweld â'r strwythur llywodraethu wrth i'r cynlluniau cyflawni gael eu gweithredu.

Nododd BRW fod cyflwr tai hefyd yn gorgyffwrdd gyda'r blaenoriaeth tlodi ac roedd yr is-grwp tlodi eisoes wedi adnabod hyn.

1	Gweithred:	SP i anfon y cyfarwyddyd/ cysylltiadau am yr iath arwyddo at DJ

5. Cynlluniau gweithredu i'w cyflwyno gan arweinyddion y blaenoriaethau

Amcan 1 - Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hirdymor -
Blanoriaeth yr Iaith Gymraeg
Cafwyd diweddariad gan Jerry Hunter, Cadeirydd grŵp yr Iaith Gymraeg.

Nododd JH fod yr is-grŵp wedi adnabod 3 ffrwd gwaith posib, a gofynnwyd i'r Bwrdd am gymeradwyaeth ohonynt sef :

1) Cydweithio a Chydlynu Prosiectau Cymraeg yn y Gweithle; rhannu arferion da, rhannu adnoddau er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian.
2) Profiad y Dinesydd o safbwynt ymwneud â gwasanaethau a'r iaith Gymraeg
3) Yr iaith a thaith plentyn trwy addysg - gan adnabod y bylchau yn y rhwydweithiau sy'n cysylltu sefydliadau a'r rhwystrau sy'n cadw plant/pobl ifanc rhag dal gafael ar eu Cymraeg.

Hysbysodd JH y Bwrdd fod cais am grant wed ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan Brifysgol Bangor ar ran partneriaid megis Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, GWE a Grwp Llandrillo a Menai. Cytunodd JH i gylchredeg y cais yn electronic i holl aelodau'r Bwrdd ei drin yn fasnachol sensitif.

Nododd JH fod gwaith treialu wedi cychwyn ar gyfer casglu data iaith Cymraeg yn y gweithle yn cynnwys mesur ymyraethau, casglu data staff, rhaglen ymarfer dda, dysgu Cymraeg yn y gweithle, ymwybyddiaeth iaith. Nodwyd fod Iechyd a Chyngor Gwynedd yn cyd-weithio ar y prosiect yma.

Sylwadau -

Cwestiynodd BRW os cafodd y 3ydd sector fewnbwn i'r cais.

Nododd Prif Weithredwyr Gwynedd ac Ynys Môn nad oeddynt yn ymwybodol o'r cais i'r Llywodraeth ac felly nid oeddent yn gallu rhoi sicrwydd o ymrwymiad i'r cais ar y pwynt yma. Awgrymwyd i Jerry anfon gwybodaeth bellach ymlaen at aelodau'r Bwrdd.

Cytunwyd ei bod hi'n anodd i aelodau'r Bwrdd gyfleu sylwadau yn seiliedig ar adroddiadau llafar- ac awgrymwyd bod disgwyliad i arweinyddion yr is-grwpiau gyflwyno eu cynlluniau gweithredu a defnyddio'r templed pwrpasol o hyn ymlaen, a chynnwys cofnod o'u cyfarfodydd.

2	Gweithred:	JH i rannu'r cais a gyflwynodd i Lywodraeth Cymraeg gydag aelodau'r Bwrdd. JH i gadarnhau pwy oedd ei bwynt cyswllt ar gyfer trafod y cais o fewn y sefydliadau sydd wedi eu cynnwys y cais.
3	Gweithred:	Adroddiad ysgrifenedig i'w cyflwyno gan arweinyddion yr is-grwpiau.
4	Gweithred:	Cofnod o gyfarfodydd yr is-grwpiau i'w rannu gyda'r bwrdd yn y dyfodol

Cafwyd diweddariad gan Ffrancon Williams, Cadeirydd y grŵp Cartrefi ar gyfer pobl leol.

Ymddiheurodd FfW nad oedd yr is-grŵp wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd. Rhannwyd papur gyda'r bwrdd yn nodi'r rhestr hir o opsiynau a gytunwyd gan yr is-grŵp wedi ei hadnabod. Gofynnwyd am sylwadau'r bwrdd ar y blaenoriaethau (nododd fod opsiwn 1 eisoes wedi ei weithredu).

Sylwadau:

Cafwyd cais gan y Bwrdd am wybodaeth bellach am yr opsiynau a defnyddio'r cynllun gweithredu i'r pwrpas yma. Bydd hyn yn eu cynorthwyo i allu gwneud penderfyniad arnynt.

Cyfeiriodd EW at gyflwr tai - costau hen dai i'w cynhesu ayyb gyda'r cysylltiad eto gyda thlodi.

Nododd GJ fod gwaith eisoes wedi ei wneud mewn perthynas â rhai o'r blaenoriaethau. Cyfeiriodd at item 9 'Edrych yn wrthrychol ar asedau'r cyngor i bwrpas tai fforddiadwy'. Gofynnwyd i'r is-grŵp roddi ystyriaeth i'r cynlluniau sydd mewn bodolaeth/ wedi eu cynnal wrth iddynt edrych yn fanylach ar yr opsiynau.

Cafwyd diweddariad gan Bethan Williams, arweinydd y grŵp effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau.

Nododd BW fod cyfarfod cychwynnol y grŵp wedi cyfarfod 23.7.18, prif bwrpas y cyfarfod cychwynnol oedd trafod y gwahanol agweddau o dlodi. Gwelwyd fod nifer yn diffinio tlodi

mewn ffyrdd gwahanol felly penderfynwyd cynnal gweithdy tlodi a gwahodd gwahanol asiantaethau. Cadarnhawyd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi cyflwyniad cyd-destunol am dlodi.

Gwahoddir aelodau'r bwrdd i'r gweithdy 20.9.18 yn dŷ Menai, Parc Menai 9yh - 12yh. Cytunwyd BRW ddod yn ôl gyda chofnod y gweithdy i gyfarfod nesaf y bwrdd.

Cafwyd diweddariad gan Sian Williams, arweinydd y grŵp effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau.

Adroddodd SW'r bwrdd am y gweithdy newid hinsawdd cafodd ei gynnal ym mis Gorffennaf. Nododd fod y gweithdy wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda nifer fawr o bobl o wahanol feysydd yn mynychu gyda lot o syniadau yn cael eu rhannu. Dafydd Thomas hwylusodd y diwrnod a chytunwyd SW i gylchredeg ei chofnod o'r diwrnod yn electroneg.

Tasg yr is-grŵp fydd tynnu'r holl sylwadau/syniadau a'i gilydd i lawr i weithredoedd tymor hir/ byr.

Nododd fod cyfarfod nesaf yr is-grŵp wedi ei drefnu ar gyfer 25.9.18.

Amcan 2 - Trigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da

Cafwyd diweddariad gan Nonn Hughes ar ran Ffion Johnstone, arweinydd y grŵp Integredig Iechyd a gofal

Nododd NH fod y cyfarfod cychwynnol wedi cael ei gynnal diwedd mis Mehefin a chytunwyd ar yr is-grwpiau gweithredol canlynol :

1. Is Grŵp cyflawni Integredig Lles
2. Is Grŵp Cyflawni Integredig Plant a phobl ifanc
3. Is Grŵp Cyflawni Integredig Oedolion
4. Is Grŵp Iechyd Meddwl
5. Is Grŵp / Grwpiau Tasg a Gorffen

Yn anffodus nid oedd y grwpiau wedi cyfarfod dros yr haf felly nid oeddent wedi cyflwyno cylchoedd gorchwyl. Cadarnhawyd fod y grwpiau gweithredol am gyflwyno'r cylch gorchwyl i Nonn a Ffion erbyn diwedd mis Medi. Cadarnhawyd bod cyfarfod nesaf y grŵp ym mis Tachwedd.

6. Ymgynghoriad Brexit a'n tir - Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru. Cafwyd crynodeb o'r cynnwys gan Emyr Williams.

Rhannwyd y papur ymgynghorol gydag aelodau'r bwrdd trwy e-bost.

Amlinellwyd fod newidiadau mawr ar y gweill a mynegwyd bod pryderon mawr wedi eu hamlygu yn y sector. Nododd fydd cyfleoedd newydd yn bosib i rhai ffermwyr ond bydd effaith negyddol ar eraill.

Trafodwyd yr effaith ar yr economi a llesiant cefn gwlad pobl yn Ogledd Cymru - Iechyd meddwl, effaith ar yr iaith Cymraeg ayyb.

Penderfynodd y bwrdd oherwydd y bydd yn cael effaith mawr ar lesiant pobl Gwynedd ac Ynys Môn roedd dyletswydd ar y bwrdd ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad.

	Gweithred:	Y Bwrdd i ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad.

7. Gohebiaeth

Rhannwyd copïau o ohebiaeth a dderbyniwyd gan y Bwrdd.

Y cynnig gan Lywodraeth Cymru am Gymorth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus - Cadarnhaodd NH fod dyddiad a lleoliad wedi eu cadarnhau - 26ain Chwefror 2019 13.30-16.30. Cais cyfarfod wedi ei anfon at aelodau'r bwrdd.

Adborth a chofnod yn dilyn cyfarfod ACE (Cymru Well Wales), 20fed Gorffennaf 2018 - Siobhan Adams & Elizabeth Woodcock wedi mynychu'r cyfarfod. Rhannwyd crynodeb ‘r digwyddiad er gwybodaeth.

Adroddiad “Dyfodol I Gymru” gan Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn partneriaeth a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol – Cyflwynir er gwybodaeth.

8. Heriau a Chyfleon - eitem Sefydlog

Dim newidiadau i'w cyflwyno

9. Unrhyw Fater Arall

Cafwyd cyflwyniad gan Elizabeth Woodcock. Diolchodd y cadeirydd i Elizabeth am ei chyflwyniad. Nododd Elizabeth ei fod yn hapus eistedd ar unrhyw un o'r is-grwpiau os bydd angen.

10. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Nodwyd manylion y trefniadau ar gyfer cyfarfod nesaf o'r Bwrdd ar 10 Rhagfyr, 2018 am 2yp yn Nhŷ Menai, Parc Menai, Bangor, Gwynedd.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 12.30